

TEULU DUW YN DIOLCH

Galwad i addoli:

'Rhowch wrogaeth i'r Arglwydd, yr holl ddaear.

Addolwch yr Arglwydd mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chan.

Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw; ef a'n gwnaeth, a'i eiddo ef ydym, ei bobl a defaid ei borfa.

Dewch i mewn i'w byrth â diolch, ac i'w gynteddau â mawl.

Diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.

Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth, a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.'

Emyn: 69 – *Wrth orsedd y Jehofa mawr*

Llefarydd:

Unwaith eto cawn gyfle fel Eglwys i gydnabod ein dyled i Dduw ac i ddiolch iddo am holl fendithion ein bywyd, ond a ydym wedi dod yma heddiw mewn ysbryd diolchgar? Tybed faint o weithiau y daethom i oedfa ar y funud ola', ac eistedd yn ein sedd heb unrhyw ymdeimlad o ysbryd addoliad na diolchgarwch yn ein calon? Ydym, rydym oll yn euog o fynd i oedfa yn ddifeddwl ac yn anniolchgar, ond yn ei drugaredd mae Duw, trwy'r Ysbryd Glân, yn abl i'n hargyhoeddi o galedwch ein calonnau a'n llenwi ag ysbryd diolchgarwch. Un tro, mewn gwasanaeth diolchgarwch, dywedodd hen sant ar ei weddi:

'Diolch i ti, ein Tad, am holl fendithion fy mywyd. Yn dy drugaredd dyro imi un fendith arall – y fendith o deimlo'n ddiolchgar.'

Mae gan ein Tad nefol ei ffordd arbennig ei hun o fendithio ei bobl ag ysbryd diolchgarwch, a gobeithiwn y bydd hynny yn digwydd yn yr oedfa hon wrth i ni ei addoli ac ymateb i neges ei Air. Daw neges Duw i ni heddiw trwy dystiolaeth y Salmydd.

Darlleniad: Salm 95: 1–7

Gweddi'r Arglwydd:

Emyn: 138 – *Deuwn ger dy fron yn awr*

Llefarydd:

Un o fendithion mawr bywyd yw gofal cariadus teulu ohonom, ac oddi mewn i'r gofal hwn rydym yn teimlo'n ddiogel a chysurus. Y mae hyn yn brofiad cyffredin i'r rhan fwyaf ohonom, ac fe ddylem gydnabod hynny'n ddiolchgar. Yr enwau sy'n cael eu cysylltu â theulu yw gŵr a gwraig, tad a mam, mab a merch, brawd a chwaer, cefnder a chyfnither, taid a nain, a modryb ac ewythr. Mae pawb ohonom yn gallu ei uniaethu ei hunan â rhai o'r enwau hyn. Gadewch inni wrando ar dystiolaeth gwahanol aelodau'r teulu gan ddechrau gyda'r plant.

Adroddiad:

RWY'N HOFFI

*Rwy'n hoffi mynd i'r ysgol
Bob dydd i weld y plant:
Rwy'n dysgu llawer yno
A chyfri bron i gant!*

*Rwy'n hoffi mynd i'r capel
Bob Sul i foli Duw,
A diolch, diolch iddo
Am nerth i gadw'n fyw.*

*Rwy'n hoffi mynd i'r pentre
I weld fy ffrindiau i gyd:
Rwy'n chwarae oriau yno
A ffrindiau gorau'r byd.*

*O diolch, diolch Iesu,
Rwyt Ti'n garedig iawn;
Mae 'myd i gyd yn hyfryd,
A 'nghalon fach yn llawn*

*Rwy'n hoffi mynd ddydd Sadwrn
I weld fy annwyl daid:
Mae nain yn brysur wastad,
Ac aros i de sy raid.*

*Wrth ddiolch iti Iesu
Am bopeth roist i mi,
Dy nerth, O dyro eto
I weithio drosot ti.*

Emyn: 387 – *Cariad Iesu Grist*

Deialog gan bobl ifanc: (*gellir addasu yn ôl yr angen*)

Person 1: Wyt ti am fynd i'r capel? Mae 'na wasanaeth arbennig yno heddiw rwy'n credu.

Person 2: O, be', be' sy 'mlaen?

P1: Gwasanaeth Diolchgarwch – cyfle inni sylweddoli mor dda ydi hi arnom.

P2: Wel, ie, mae hynny yn wir, ond biti na fuasem yn cydnabod hynny drwy'r flwyddyn. Dydi diolch un diwrnod y flwyddyn ddim yn swnio'n iawn rywsut.

P1: Mae'r gweinidog wedi gofyn inni wneud rhestr o bethau y dylem ni bobl ifanc ddiolch amdanynt. Wnei di helpu?

P2: Beth am ddechrau hefo ffrindiau? Mae gennyt ti ddigon ohonyn nhw – merched a bechgyn!

P1: Tithau hefyd! Ond i fod o ddifri am funud – mae gyda ni ffrindiau ardderchog on'd oes. Gobeithio ein bod ni'n ffrindiau da iddyn nhw hefyd.

P2: Mae hyn yn gwneud imi feddwl am yr ysgol. Rwy' n gwybod ein bod ni'n cwyno weithiau am yr athrawon, ac maen nhw'n annheg ambell waith, ond yn y bôn maen nhw'n grêt – a chware teg, fuaswn i ddim yn hoffi eu gwaith nhw. Dim ond blwyddyn sy gen i ar ôl.

P1: Wel, mae gen i flynyddoedd i fynd, ond dyna fo, rwy'n mwynhau'r ysgol, a diolch am hynny.

P2: Ond beth am adre? Mi fuaswn i'n hoffi cael stafell wely lawer mwy na'r un sy gen i, ac mae Dad yn cwyno o hyd ei bod hi'n flêr, a Mam hefyd!

P1: Wel, i fod yn deg â Dad a Mam, mae hynny'n wir. Rwyd ti yn flêr, a finnau hefyd! Ond mewn gwirionedd, mae'n dda arnom ni – ac ar Dad a Mam. Meddylia am deuluoedd yn rhannau eraill o'r byd – druan ohonyn nhw.

P2: Faint sy gen ti ar y rhestr 'na rŵan? Fe ddylem yn sicr gynnwys Taid a Nain. Maen nhw'n ddoniol iawn weithiau, yn enwedig Taid! Pryd aethom i'w gweld ddwetha'?

Cyd-weddiwn:

Ein Tad, wrth ddiolch i ti am gariad anwyliaid, caredigrwydd cymdogion, a theyrngarwch ffrindiau, gwna ni i sylweddoli mor dda yw hi arnom, ac mor fawr yw ein dyled i ti.

*'Diolchaf am dy gariad cu
Yn estyn hyd fy oes;
Diolchaf fwy am Un a fu
Yn gwaedu ar y groes.'*

Yn dy drugaredd, agor ein llygaid i weld anghenion pobl eraill, ac i rannu dy fendithion yn ysbryd dy gariad. O Dad nefol, nertha ni i ymwadu â ni ein hunain, i godi'n croes, ac i ddilyn Iesu Grist. Er mwyn ei enw. Amen.

Emyn: 130 – *Pob peth, ymhell ac agos*

Llefarydd: *(ar ran y tadau)*

Mae nifer o dadau yn y gynulleidfa, ac y maent fel finnau yn ddiolchgar am gymaint o fendithion bywyd. Fel y clywsom yn barod, mae'n amhosibl rhestru popeth a gawsom, ac mae nifer o'r bendithion hyn yn cael eu hestyn i bawb ohonom. Ond fel tadau rydym yn diolch i Dduw

yn arbennig heddiw am ein gwagedd sy'n famau da, ac am ein plant sy'n werth y byd. Wrth gwrs, nid ydym yn teimlo fel hyn bob amser! Mae gwraig a phlant yn llethu amynedd rhywun ambell dro, ac fe allant hwy ddweud hyn amdanom ni'r tadau hefyd! Rydym yn anodd iawn ein trin ar adegau, ond yr hyn sy'n braf yw bod ein gwagedd a'n plant yn ein derbyn fel ag yr ydym, ac yn ein caru er inni eu siomi lawer gwaith.

Sylfaen priodas dda ac aelwyd ddedwydd yw cariad Duw yn Iesu Grist. Ef yn unig a all ein cadw yn wir ffyddlon i'n gwagedd, ac yn addurn sanctaidd a gogoneddus iddo ef ei hun.

Llefarydd:

Ar ddydd pen blwydd ein priodas, daw atgofion melys a thrist i'n cof, ond trwy'r cyfan, fel y mynegir yn y pennill bychan hwn, fe dyf holl liwiau'r daith, yn ei law Ef, yn harddach beunydd:

*'Mae cant a mil o ddyddiau bron
Ar glawr ers dydd ein priodas,
Ac amryw liwiau bywyd dau
Ynghyd, fel llun ar gynfas.
Mae cysgod yma, heulwen draw
'Nôl arfaeth yr Arlunydd,
A than Ei law tyf lliwiau'r llun
A'n serch yn harddach beunydd.'*

Wrth ddiolch am fendithion cymar a phlant a theulu, byddai'n dda i ni dadau gofio'r adnodau canlynol:

'Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth.

Y mae'r geiriau hyn yr wyf yn eu gorchymyn iti heddiw i fod yn dy galon.

Yr wyt i'w hadrodd i'th blant, ac i sôn amdanynt pan fyddi'n eistedd yn dy dŷ ac yn cerdded ar y ffordd, a phan fyddi'n mynd i gysgu ac yn codi.

Chwi dadau, peidiwch â chythruddo'ch plant, ond eu meithrin yn nisgyblaeth a hyfforddiant yr Arglwydd.

Chwi wŷr, carwch eich gwragedd, fel y carodd Crist yntau'r Eglwys a'i roi ei hun drosti.'

Cyd-weddiwn: *(un o'r tadau)*

Ein Tad nefol a sanctaidd, Tad yr holl genhedloedd a Thad pob unigolyn, gwna ni, dadau'r ddaear, yn ostyngedig ein hysbryd ger dy fron, ac yn ymwybodol o'n braint a'n cyfrifoldeb i warchod ein teulu yn ysbryd dy gariad.

Gweddiwn am ras i'n cadw rhag cymryd ein cymar yn ganiataol, a'i defnyddio yn hunanol. Gwared ni o bob chwant a phechod sy'n difrio cysegredigrwydd priodas. O Dad, arwain ni, trwy ein serch at ein cymar, i gyflawnder y cariad hwnnw sy'n bwrw allan bob ofn, fel y byddom yn deulu dedwydd a sanctaidd i ti dy hun.

Yn ein perthynas â'n plant, cynorthwya ni rhag beirniadu'n plant yn annheg a'u ceryddu'n ddiiddiwedd. O Dad, meithrin ynom ysbryd cariad, fel y byddom yn dadau tyner a gofalus o'n plant, ac yn esiampl dda iddynt mewn meddwl, gair a gweithred. Diolchwn i ti am fendith dy gariad yn ein cartrefi, lle teimlwn yn ddiogel a chysurus yng nghwmni ein hanwyliaid. O Dad, cadw ni rhag anghofio'r miloedd heddiw yn ein byd sy'n ddigartref, a heb aelwyd i orffwys arni. Yn dy drugaredd, taena dy adain rasol drostynt oll, a nertha ninnau i wneud ein rhan i leddfuo poen ac i ysgafnhau beichiau bywyd ein brodyr a'n chwiorydd. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 809 – *Dragwyddol, hollalluog lôr*

Llefarydd: *(ar ran y mamau)*

Mae nifer o famau yn y gynulleidfa, ac fel y tadau, rydym ninnau hefyd yn diolch i Dduw am ein cymar a'n plant. Mae bod yn fam yn un o

freintiau mwyaf bywyd, ac yn gyfrifoldeb mawr. Ers talwm, roedd rhai mamau yn geni nifer fawr o blant, ac yn eu magu mewn amgylchiadau anodd a chaled iawn. Mae'r cyfnod hwnnw wedi mynd heibio i'r rhan fwyaf ohonom, ond ni allwn anghofio aberth ein hanwyliaid yn y dyddiau a fu. Mae geiriau'r bardd W. J. Gruffydd yn briodol iawn:

*'Cofia dy fam, a'i phryder hi
Yn oriau dy nosau anniddig di,
A chofia beunydd mai dy grud
Oedd allor ei hieuenctid drud.'*

Y mae cofio hyn yn ein hatgoffa o frawddeg yr Apostol Paul yn ei lythyr i'w fab yn y ffydd, Timotheus, *'Daw i'm cof y ffydd ddiffuant sydd gennyf, ffydd a drigodd gynt yn Lois, dy nain, ac yn Eunice, dy fam, a gwn yn sicr ei bod ynot tithau hefyd.'*

Wrth ddiolch am ffydd ddiffuant ein rhieni gynt, mae'n deg gofyn a yw ein ffydd ni heddiw yn ddiysgog yn yr Arglwydd Iesu Grist, ac a ydym yn trosglwyddo gwerthoedd yr Efengyl i'n plant? Yn y bedydd, addawsom gyda'n gwŷr i fagu ein plant yng ngwirioneddau a dyletswyddau'r Ffydd Gristnogol, gan weddio drostynt a rhoi esiampl dduwiol iddynt. Y diolch gorau y gallwn ei roi i'r Arglwydd yw anrhydeddu'r addewidion a wnaethom iddo, ac ymroi i garu ein plant a'n gwŷr yn enw ein Gwardwr annwyl, Iesu Grist.

Fe wrandawn yn awr ar ddetholiad o adnodau o Lyfr y Diarhebion sy'n sôn am y wraig rinweddol, a hefyd ar ychydig o adnodau o Lythyr cyntaf loan sy'n ein hannog ni i garu ein gilydd.

Darlleniad: Diarhebion 31: 10–12, 26–31
Llythyr cyntaf loan 4: 10–12, 19

Gweddiwn: *(un o'r mamau)*

Diolchwn i ti, ein Tad, am neges dy Air inni garu ein gilydd fel teuluoedd. Diolchwn am deulu dy Eglwys yn y tŷ hwn, lle cawn ymateb fel plant i ti, a brodyr a chwiorydd i'n gilydd yn Iesu Grist. Cyffeswn ein diffygion fel rhieni, a phwyswn ar dy dosturi mawr. Gweddiwn dros holl deuluoedd yr Eglwys a'r fro hon, a deisyfwn gyda'r emynydd:

*'Boed pob aelwyd dan dy wenau
A phob teulu'n deulu Duw:
Rhag pob brad, nefol Dad,
Cadw di gartrefi'n gwlad.'*

O Dad, os gweli'n dda, gwarchod ein teuluoedd â'th gariad, a bydded i dangnefedd dy Fab Iesu Grist aros ar ein haelwydydd, ac yn ein calonau. Er mwyn dy enw mawr. Amen.

Emyn: 710 – *Arglwydd Iesu, dysg im gerdded*

Llefarydd: *(ar ran Taid a Nain)*

Mae'n dda dweud fod nifer o deidiau a neiniau hefyd yn y gynulleidfa, ac yr ydym fel gweddill y teulu yn diolch i Dduw am fendithion dirifedi bywyd. Ein tuedd naturiol ni yw edrych yn ôl dros ysgwydd y blynyddoedd, a dwyn i gof brofiadau amrywiol bywyd. Ni fu'r daith i gyd yn rhwydd, a daw ambell ddigwyddiad trist yn ôl i'r cof, ond nid yw'r gorffennol chwaith heb ei atgofion melys a hyfryd, ac rydym yn diolch i Dduw heddiw am yr holl fendithion a gawsom i gyfoethogi ein bywyd. Dywed yr Apostol Paul wrthym:

'Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi.'

Yn ein digonedd heddiw, mae'n hawdd iawn colli ysbryd diolchgarwch, a'r ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at ein gilydd. Yn ogystal, mae gormod o agendor heddiw rhwng yr ifanc a'r hen – yr hen yn drwgdybio'r ifanc, a'r ifanc yn anwybyddu'r hen. Ond ein cysur yw bod cariad yr Arglwydd Iesu Grist yn abl i ddymchwel pob rhagfarn a dieithrwch yn ein plith, a chreu ynom gonsŷrn gwirioneddol am ein gilydd.

Fel teidiau a neiniau, rydym yn mwynhau, nid yn unig ein plant, ond hefyd ein hwyrion a'n hwyresau. Maent yn ein cadw'n ifanc ac yn brysur! Yn sicr, bendith fawr yw treulio hydref bywyd yng nghwmni ein hanwyliaid.

Sylweddolwn fod llawer yn ein cymdeithas a'n byd yn amddifad o fendithion yr aelwyd, ac yn teimlo diwedd oes yn faich. Onid un o

nodweddion yr aelwyd Gristnogol yw cynhesrwydd cariad a chroeso i'r unig a'r llesg? Gwyddom hefyd nad yw pawb yn ein cymdeithas yn briod ac yn mwynhau gofal a chysur teulu. Onid ein tuedd, ambell dro, yw anghofio eu hanghenion, a cholli cyfle i'w croesawu i'n haelwydydd? Gofidiwn fod torpriasau yn gadael llawer heddiw yn ddiymgeledd a thrist, a phryderwn yn fawr am ddyfodol ein plant sy'n byw mewn cymdeithas sy'n dilorni cysegredigrwydd priodas a gwerthoedd y teulu Cristnogol. Ond llawenhawn hefyd fod nifer fawr o briodasau dedwydd o hyd yn ein gwlad, a theuluoedd sy'n byw yn gytûn mewn ysbryd cariad, a than fendith Duw yn Iesu Grist.

'Duw, cariad yw.' Dyna'r adnod gyntaf a ddysgwyd inni gan ein rhieni, a thros y blynyddoedd cawsom brofi a mwynhau cariad Duw yn ein perthynas â'n gilydd ar ein haelwydydd gartref, a hefyd ar aelwyd yr eglwys hon. Am hynny, gadewch inni lynu'n gadarn yng ngwirioneddau'r Ffydd, gan estyn i'n plant, ac i blant ein plant, drysorau cariad Duw yn Iesu Grist. Ac iddo ef y rhoddwn ein diolch a'n clod, yn awr a hyd byth. Amen.

Cyd-weddiwn: (*Taid neu Nain neu aelod hŷn o'r eglwys*)

Diolchwn i ti, ein Tad, am gyfnodau amrywiol taith bywyd:

am gyfnod plentyndod dan ofal rhieni cariadus,

am gyfnod ieuencid yn llawn asbri ac ynni,

am gyfnod canol oed prysur, a chyfnod tynnu'r gŵys i'r dalar.

O Dad, diolchwn am dy gwmni grasol ar hyd y daith, ac am ofal tyner anwyliaid a chyfeillion ohonom. Gweddiwn dros bawb sy'n teimlo bywyd yn faich ac yn unig. Cysura hwy â diddanwch dy gariad, a nertha ni i wneud ein rhan, gan weld pob mab i ti yn frawd i ni, O Dduw.

Gweddiwn am ofal dy gariad arnom ninnau hefyd fel teuluoedd ac Eglwys. O Dad, gwna ein heglwys yn fwy o aelwyd, a'n haelwydydd yn fwy o eglwys, fel y daw eraill trwom ni i'th adnabod di yn Dad annwyl a thrugarog, a'th Fab Iesu Grist yn Frawd ac yn Geidwad. Clyw ein gweddiâu, ac aros gyda ni, a chyda phlant Duw ym mhob man. Gofynnwn hyn yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 107 – *Gogoniant tragwyddol i'th enw, fy Nuw*

Y Fendith:

Gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw,
a chymdeithas yr Ysbryd Glân, a fyddo gyda chwi oll. Amen.